

Crynodeb o'r cynigion

1. Yn sgil y cyhoeddiad ynghylch newid y gyfradd a'r ymgynghoriad arfaethedig ar 27 Chwefror dywedodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd:

Bydd y Llywodraeth yn adolygu'r fframwaith a ddefnyddiwyd gennyf i bennu'r gyfradd heddiw i sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas at y diben yn y dyfodol. Byddaf yn cynnal ymgynghoriad cyn y Pasg a fydd yn ystyried yr opsiynau ar gyfer diwygio gan gynnwys: a ddylai'r gyfradd gael ei phennu yn y dyfodol gan gorff annibynnol; a fyddai cynnal adolygiadau'n amlach yn rhoi mwy o ragweladwyedd a sicrwydd i'r holl bartion; ac a yw'r fethodoleg – sydd i bob pwrpas yn tybio mai mewn stociau gilt mynegrifol yn unig y byddai hawlwy'r yn buddsoddi – yn briodol at y dyfodol. Ar ôl cynnal yr ymgynghoriad, a fydd yn ystyried a oes fframwaith gwell neu decach i hawlwy'r a diffynyddion, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol yn gynnar.

2. Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ac wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r ymatebion. Mae nawr yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i greu system decach a gwell ar gyfer setlo'r gyfradd ddisgownt, ond cyn gwneud hynny mae'n dymuno darparu cyfle i bartion sydd â diddordeb wneud sylwadau ar fanylion y deddfwriaeth arfaethedig.
3. Nid yw'r cynigion yn effeithio ar egwyddor sylfaenol cyfraith iawndal, sef y dylai hawlwy'r gael iawndal llawn am y colledion a ddioddefwyd ganddynt oherwydd anaf a achoswyd gan y diffynnydd. Amcan cymhwyso cyfradd ddisgownt o hyd felly fydd cefnogi rheol iawndal 100% fel bod hawlwy'r yn derbyn iawndal llawn am golled a achoswyd gan yr anaf a achoswyd ar gam heb fod yn fwy nac yn llai na hynny.
4. Roedd y papur ymgynghori'n ymdrin â'r materion ynghylch pennu cyfradd y disgownt gan gyfeirio at feysydd allweddol sut, pryd a chan bwy y dylid pennu'r gyfradd.
5. Fel y disgrifir yn y ddogfen ymatebion, roedd yr ymatebion yn cynnwys ystod eang o safbwyntiau, a'r rheini'n aml yn rhanedig. At ei gilydd, roedd yr ymatebion yn amlygu anfodlonrwydd cyffredinol â gwahanol agweddau ar y gyfraith fel y mae am amryw o resymau ond dim consensws cryf ar draws y gwahanol grwpiau buddiant ynghylch sut yn benodol y dylid diwygio'r gyfraith heblaw mewn nifer fach o feysydd cyfyngedig, megis bod angen cynnal adolygiadau'n amlach yn y dyfodol nag o'r blaen ac mai da o beth fyddai cadw'r cydbwysedd presennol rhwng cyfandaliadau a gorchmynion talu cyfnodol.
6. **O ran sut y dylid pennu'r gyfradd**, roedd yr ymatebion yn rhanedig ynghylch yr archwaeth risg wrth fuddsoddi y dylid ei dybio wrth bennu'r gyfradd (mae grwpiau buddiannau hawlwy'r at ei gilydd yn ffafrio'r lefel risg isel iawn bresennol a'r diffynyddion yn ffafrio lefel uwch o risg, er ei bod yn dal i fod yn isel). Ond roedd cytundeb eang y dylid trin hawlwy'r fel petaent yn fwy gwrth-risg na buddsoddwyr gochelgar arferol. Yn amodol ar y gwahaniaeth barn hwn roedd cefnogaeth eang i'r egwyddorion cyffredinol a gynigir ar gyfer pennu'r gyfradd.¹ Roedd yn glir hefyd, ac ystyried yr ymatebion a

¹ Mae paragraff 36 y Papur Ymgynghori'n cynnig yr egwyddorion cyffredinol isod: "The general principles for setting the rate might be as follows:

The discount rate should be the rate that in the reasonable opinion of the setter is (a) consistent with the returns expected from the investment strategy implied by the appropriate risk profile of the claimant (see below) and (b) satisfies the following:

- the lump sum payable after the application of the discount rate plus the assumed income expected to be earned should represent the full loss, neither more nor less, caused by the wrongful injury;

chanlyniadau gwaith ymchwil arall gyda'i gilydd, fod hawlwyd yn buddsoddi mewn portffolios cymysg risg isel ac nid mewn buddsoddiadau "risg isel iawn", megis Stociau Gilt Mynegrifol yn unig.

7. Ar sail y dystiolaeth a'r dadansoddiadau, sy'n cael eu hesbonio yn yr Asesiad Effaith, credwn fod y tybiaethau a wnaed o dan y gyfraith bresennol ynghylch pennu cyfradd y disgownt o ran sut y mae hawlwyd yn buddsoddi yn afrealistig, ac fel y mae pethau, y gallai'r gyfradd arwain at ddyfarniadau mwy o lawer nag iawndal 100%. Mae'r tybiaethau afrealistig sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn cael effaith sylweddol ar drethdalwyr drwy gost ychwanegol setliadau anafiadau personol a delir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus; a busnesau a defnyddwyr unigol drwy breimymau yswiriant uwch am fod cost dyfarniadau'n gallu bod yn fwy nag iawndal 100%. O'r herwydd mae angen ail-raddnodi'r fframwaith ar gyfer pennu cyfradd y disgownt i helpu i gyrraedd y nod o iawndal 100%.
8. **O ran pryd y dylid adolygu'r gyfradd**, roedd cytundeb cyffredinol y dylid cynnal adolygiadau'n amlach nag o'r blaen, gyda mwy o ragweladwyedd, ond roedd ystod o wahanol safbwyntiau ynghylch hyd y cyfnod ac a ddylai fod yn un penodol.
9. **O ran pwy ddylai bennu'r gyfradd**, roedd cefnogaeth i gyflwyno mwy o dryloywder ac arbenigedd annibynnol i'r broses o bennu'r gyfradd, ond er bod rhai ymatebwyr yn ffafrio cael panel annibynnol i bennu'r gyfradd, roedd y diffynyddion at ei gilydd yn dadlau o blaid rheolaeth wleidyddol ar y penderfyniad terfynol ond gyda chynghor gan banel annibynnol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol i gynnwys panel arbenigol annibynnol yn y broses o bennu'r gyfradd. Er hynny, mae'r Llywodraeth hefyd yn derbyn pwysigrwydd darparu atebolrwydd gwleidyddol clir i benderfyniad y mae canlyniadau ariannol a chyllidol clir iddo, er nad yw ond yn arferadwy o fewn cyfyngiadau'r gyfraith.
10. Yn sgil yr ymateb hwn, ac ar ôl ystyried drosti'i hun y materion dan sylw, mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad ei bod yn amlwg bod angen fframwaith gwell a thecach ar gyfer pennu cyfradd y disgownt. Mae'r Llywodraeth felly'n bwriadu gwneud y newidiadau a ganlyn i'r gyfraith.
11. **O ran sut y dylid pennu'r gyfradd**, mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn nodi'n benodol y bydd y gyfradd yn cael ei phennu gan gyfeirio at gyfraddau disgwylidig yr adenillion ar bortffolio cymysg risg isel o fuddsoddiadau yn hytrach na buddsoddiadau risg isel iawn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Wrth asesu'r gyfraddau hynny dylid ystyried arferion buddsoddi gwirioneddol hawlwyd a'r buddsoddiadau sydd ar gael iddynt. Bydd hyn yn gwneud y gyfradd yn fwy realistig ac yn adlewyrchu'n well sut y mae hawlwyd yn buddsoddi eu dyfarniadau mewn gwirionedd. Bydd yn dal i fod yn bosib pennu cyfraddau gwahanol i wahanol fathau o achosion, gan gynnwys cyfeirio at hyd y dyfarniad.
12. O dan y gyfraith newydd bydd cyfradd y disgownt yn adlewyrchu cyfradd ddisgwylidig yr adenillion ar bortffolio cymysg risg isel. Mae'n debyg y bydd ystod o bortffolios a chyfraddau adenillion y gellid eu defnyddio wrth bennu'r gyfradd. Mater i'r Arglwydd Ganghellor fydd cymhwyso'r egwyddorion cyfreithiol a amlinellir yn y ddeddfwriaeth a phenderfynu ar sail hynny ble yn yr ystod risg isel y dylid pennu'r gyfradd.

-
- the losses and costs assessed by the court to flow from the injury should be met on time; and
 - the capital and the income assumed to be earned from the award must be exhausted at the end of the period for which the award is made.

Due regard should be given for the following factors:

- actual returns that claimants are likely to receive on investments; and
- availability of a PPO in respect of some or all of the loss."

13. Yr egwyddor gyfreithiol allweddol fydd y dylai'r gyfradd fod yn un y gellid disgwyl, ym marn resymol yr Arglwydd Ganghellor, i'r sawl sy'n derbyn cyfandaliad iawndal am golled ariannol yn y dyfodol, ar ôl cael cyngor priodol, ei chael pe bai'n buddsoddi'r cyfandaliad mewn portffolio cymysg risg isel â'r nod o sicrhau (a) y byddai'r cyfandaliad a'r incwm yn deillio ohono yn talu am y colledion a'r costau y'i dyfarnwyd ar eu cyfer pan ddisgwylir iddynt godi; a (b) y byddai'r iawndal perthnasol yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod y'i dyfarnwyd ar ei gyfer. Yn hyn o beth mae'n rhaid i'r Arglwydd Ganghellor ystyried y buddsoddiadau sydd ar gael a'r buddsoddiadau gwirioneddol a wneir gan hawlwr; a rhaid rhoi ystyriaeth i'r costau trethiant, chwyddiant a rheoli buddsoddiadau y mae'r Arglwydd Ganghellor yn tybio eu bod yn briodol.
14. **O ran pryd y dylid adolygu'r gyfradd** mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn darparu ar gyfer adolygu'r gyfradd yn y lle cyntaf yn syth ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, ac ar ôl hynny, o leiaf bob tair blynedd, gan ailbennu'r cyfnod pan newidir y gyfradd. Rhaid cychwyn yr adolygiad cychwynnol ymhen 90 diwrnod i'r darpariaethau ddod i rym. Cwblheir pob adolygiad ymhen 180 diwrnod ar ôl iddo gychwyn. Bydd cyfradd newydd yn cael ei phennu ar ôl hynny os yw'r Arglwydd Ganghellor o'r farn bod hynny'n briodol. Daw'r gyfradd newydd i rym ar ddyddiad a bennir gan yr Arglwydd Ganghellor. Bydd hyn yn fodd o osgoi gormod o oedi rhwng adolygiadau, a fydd yn gwneud newidiadau i'r gyfradd yn haws eu rhagweld a'u rheoli.
15. **O ran pwy ddylai bennu'r gyfradd**, mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn darparu mai'r Arglwydd Ganghellor fydd yn pennu'r gyfradd, ar ôl ymgynghori â phanel arbenigol (heblaw'r adolygiad cychwynnol a gynhelir gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chyngor gan Actiwari'r Llywodraeth). Bydd Trysorlys EM, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, hefyd yn ymgynghorai statudol ym mhob adolygiad. Cadeirir y panel gan Actiwari'r Llywodraeth a bydd yn cynnwys pedwar aelod arall sydd â phrofiad fel actiwari, rheolwr buddsoddiadau ac economegydd, ac yn olaf, mewn materion buddsoddiadau defnyddwyr.
16. Nodir y cymal drafft sy'n rhoi grym i'r newidiadau hyn yn Atodiad A.
17. Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd y newidiadau hyn yn creu system well a thecach ar gyfer pennu cyfradd y disgownt. Bydd hawlwr yn parhau i dderbyn iawndal llawn a theg, ond drwy sicrhau bod cyfradd y disgownt yn cyd-fynd â'r ffordd y mae hawlwr yn buddsoddi, mewn gwirionedd ni fydd diffynyddion a'u hyswirwyr yn talu mwy nag iawndal 100% mwyach am fod cyfradd ddisgownt artiffisial o isel wedi'i chymhwyso. Bydd ystod ehangach o arbenigedd yn llywio newidiadau i'r gyfradd a bydd y newidiadau'n cael eu gweithredu mewn modd mwy tryloyw nag yn y gorffennol. Dylai cynnal adolygiadau'n amlach helpu i osgoi newidiadau sylweddol i'r gyfradd, ac mae hynny'n golygu y bydd modd sicrhau bod y gyfradd yn cyd-fynd ag adenillion ar fuddsoddiadau'n amlach ac yn osgoi'r "sioc" bosib i'r system ariannol oherwydd newidiadau sylweddol i'r gyfradd pan nad yw'r farchnad yn barod amdanynt.
18. Ceir esboniad llawn o effaith y ddeddfwriaeth ddrafft yn y nodiadau esboniadol drafft a baratowyd i gyd-fynd â'r cymal drafft yn Atodiad B.

Graddfa cymhwyso'r ddeddfwriaeth arfaethedig a datganoli

19. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig. Mae diben y ddeddfwriaeth yn ymwneud â hawliadau sifil o dan gyfraith camwedd a dyfarnu iawndal. Nid yw hwn yn faes lle mae gan, neu lle bydd gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru na Llywodraeth Cymru gymhwysedd yn awr nac o dan ddiwygiadau a wnaed i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan Ddeddf Cymru 2017.

20. Mae Deddf lawndal 1996, a fydd yn cael ei diwygio drwy'r ddeddfwriaeth ddrafft pan gaiff ei deddfu, yn berthnasol fodd bynnag i'r Deyrnas Unedig gyfan. Wrth i'r diwygiadau a ddaw i rym drwy'r ddeddfwriaeth ddrafft fewnosod Atodlen newydd i'r Ddeddf, bydd yn rhaid diwygio'r cyfeiriadau i'r atodlen bresennol fel "Yr Atodlen" i gyfeirio at "Atodlen 1". Mae'r atodlen dan sylw'n berthnasol i gyfraith Gogledd Iwerddon yn unig.

Pwerau dirprwyedig yn y ddeddfwriaeth arfaethedig

21. Nid yw'r ddeddfwriaeth ddrafft yn cynnwys pwerau dirprwyedig newydd. Er hynny, mae'n dwyn ymlaen ddau bŵer dirprwyedig i wneud is-ddeddfwriaeth, sef pŵer yr Arglwydd Ganghellor i nodi'r union gyfradd mewn offeryn statudol, a'r gofyniad i'r llys ystyried y gyfradd a bennwyd gan yr Arglwydd Ganghellor yn amodol ar unrhyw rai o reolau'r llys a wneir at y diben hwnnw, ac yn unol ag unrhyw reolau o'r fath. Bydd y darpariaethau parhaus hyn yn amodol ar y newidiadau i'r gyfraith gysylltiedig a wneir drwy'r ddeddfwriaeth ddrafft (e.e. y terfynau amser newydd ar gyfer cynnal adolygiadau).

Cychwyn y ddeddfwriaeth arfaethedig

22. Disgwylir i'r diwygiadau i Ddeddf lawndal 1996 ddod i rym yn y ffordd arferol ar ddyddiad a bennir drwy orchymyn cychwyn a wneir gan yr Arglwydd Ganghellor maes o law. Ni fydd unrhyw newid i'r gyfradd a wneir o dan y darpariaethau newydd yn effeithio ar ddyfarniadau iawndal a wnaed eisoes, ond o'r dyddiad y daw'r newid i rym bydd y llysoedd yn ei ystyried wrth asesu cyfradd yr adenillion a ddisgwylir ar y swm a ddyfernir yn lle'r gyfradd oedd i'w chymhwyso cyn hynny. Mae hynny'n parhau â'r dull gweithredu o dan y gyfraith fel y mae ar hyn o bryd. Nid oes effaith ôl-weithredol.

Deddf Hawliau Dynol 1998

23. Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r newidiadau a gynigir yn effeithio ar unrhyw rai o Hawliau'r Confensiwn fel y'u diffinnir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 a'u bod felly'n cydfynd â Hawliau'r Confensiwn.

Effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig

24. Mae effeithiau ariannol ac economaidd pwysig i gyfradd y disgownt. Ceir esboniad o asesiad y Llywodraeth o effaith cyflwyno'r fframwaith cyfreithiol newydd a amlinellir yn y cymal drafft yn yr Asesiad Effaith a'r Datganiad Cydraddoldeb a gyhoeddir law yn llaw â'r papur hwn.² Byddai'r Llywodraeth yn croesawu tystiolaeth bellach i'w hystyried wrth baratoi'r Asesiad Effaith a'r Datganiad Cydraddoldeb i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth arfaethedig pan gaiff ei chyflwyno i'r Senedd.

25. Mae'r asesiadau hyn yn ymwneud â'r fframwaith cyffredinol ar gyfer asesu'r gyfradd. Nid ydynt yn asesu effaith newid penodol i'r gyfradd. Gall y gyfradd godi neu ostwng yn ôl symiau amrywiol yn dibynnu ar yr amgylchiadau adeg yr adolygiad. Gall adolygiadau hefyd ddigwydd yn amlach nag uchafswm y cyfnodau a nodir yn y ddeddfwriaeth ddrafft.

26. Ni chynhelir yr adolygiad cyntaf o'r gyfradd o dan y gyfraith newydd arfaethedig hyd nes bydd y ddeddfwriaeth wedi ei deddfu. Nid yw'n bosib darogan yr union gyfradd y byddai adolygiad o dan y dull newydd yn ei phennu.

27. Er hynny, at ei gilydd, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a heb lesteirio gallu'r Arglwydd Ganghellor i arfer disgrisiwn yn y dyfodol, byddai'r Llywodraeth yn disgwyl, pe byddai un gyfradd yn cael ei phennu heddiw o dan y dull newydd, y gallai'r gyfradd wirioneddol gwmpo rhwng 0% ac 1%.

² <https://www.gov.uk/government/consultations/personal-injury-discount-rate-how-it-should-be-set-in-future>

28. Mae'r amcangyfrif hwn o ystod bosib y cyfraddau o dan y gyfraith arfaethedig yn seiliedig yn bennaf ar yr adenillion disgwylidig dros gyfnodau dyfarnu hwy, a nodir yn adroddiad Adran Actiwari'r Llywodraeth a gyhoeddir ochr yn ochr â'r papur hwn, ac fe'i lluniwyd drwy wneud tybiaethau enghreifftiol ynghylch lwfansau priodol ar gyfer treuliau buddsoddi a threthiant. Os bydd yr adenillion disgwylidig yn cwmpo neu os ceir bod y tybiaethau o ran treuliau buddsoddi a threthiant wedi eu tanamcangyfrif, gallai'r gyfradd fod yn is; neu, os bydd yr adenillion disgwylidig yn cynyddu neu os ceir bod y tybiaethau wedi eu goramcangyfrif, gall fod yn uwch. Mae'r gyfradd amcangyfrifedig hefyd yn adlewyrchu'r dybiaeth newydd y dylid tybio bod hawlwyd yn barod i gymryd risg isel wrth fuddsoddi. Mae'r dybiaeth hon yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch sut y mae hawlwyd yn buddsoddi eu dyfarniadau mewn gwirionedd. Nid yw risg isel yn derm manwl-gywir ac mae'n cwmpasu ystod o bosibiliadau, y byddai disgwyl iddynt arwain at wahanol ganlyniadau buddsoddi ar wahanol gyfraddau disgownt. Trafodir hyn yn adroddiad Adran Actiwari'r Llywodraeth.